

Ffurflen ar Gyfer Cais am Arolygiad Ailsgorio

Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Atodlen 3

Rhaid i ffurflen y mae gweithredwr busnes bwyd yn ei defnyddio wrth ofyn am arolygiad ailsgorio ddilyn y ffurf a osodir isod, yn amodol ar addasiadau ac amgylchiadau o'r math sy'n rhesymol ofynnol.

Nodiadau ar gyfer busnesau

- Fel gweithredwr busnes bwyd mae gennych hawl, o dan adran 12 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, i wneud cais ar unrhyw adeg am arolygiad ar gyfer ailsgorio, ar yr amod eich bod wedi talu costau rhesymol yr ailsgorio yn unol ag adran 13 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.
- Rhaid talu costau ailsgorio ar adeg gwneud cais am arolygiad ailsgorio; os na fyddwch chi'n talu; mae'n bosibl y bydd oedi wrth brosesu eich cais. Ewch ati i gysylltu â'ch awdurdod lleol i gadarnhau'r dull talu cyn gwneud cais.
- Yn ogystal â thalu'r costau, mae'n rhaid i chi fodloni'r amodau canlynol er mwyn gallu parhau â'ch cais:
 - a) bod penderfyniad wedi'i gwneud ar unrhyw apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd bresennol;
 - b) eich bod wedi hysbysu'r awdurdod bwyd y gwnaed gwelliannau yn safonau hylendid y sefydliad;
 - c) bod yr awdurdod bwyd o'r farn y byddai'n rhesymol arolygu ac asesu'r sefydliad ymhellach oherwydd y gwelliannau yr honnir eu bod wedi'u gwneud;
 - d) bod y sticer sgôr hylendid bwyd cyfredol yn cael ei arddangos yn eich sefydliad yn unol â gofynion adran 7 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a rheoliad 9 o Reoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013;
 - e) eich bod wedi cytuno i sicrhau y caniateir mynediad i'r awdurdod bwyd i gynnal arolygiad o'r sefydliad at ddiben ailsgorio.
- Bydd swyddog yr awdurdod lleol yn rhoi sgôr hylendid bwyd newydd i chi, ar sail y lefel o gydymffurfiaeth a ganfyddir ar adeg yr ail-ymweliad – dylech fod yn ymwybodol y gall eich sgôr naill ai godi neu ostwng, neu aros fel y mae ar hyn o bryd.
- I wneud cais am ail-ymweliad, defnyddiwch y ffurflen isod os gwelwch yn dda a dychwelwch y ffurflen at swyddog diogelwch bwyd eich awdurdod lleol – anfonwyd y manylion cyswllt gyda'r hysbysiad ysgrifenedig o'ch sgôr hylendid bwyd.
- Cynhelir yr ail-ymweliad o fewn 3 mis ar ôl gwneud y cais, ac fel rheol ni roddir rhybudd ymlaen llaw. Ar ôl i gais ddod i law ac wedi i ni ddechrau prosesu

Y gweithredwr busnes bwyd			
Enw'r busnes			
Cyfeiriadau busnes			
Rhif ffôn y busnes			
Cyfeiriad e-bost y busnes			
Dyddiad yr arolygiad		Y sgôr hylendid bwyd a roddwyd	
Enw'r person cyswllt (os yw'n wahanol i'r gweithredwr busnes bwyd)			

Cyfeiriad y Brif Swyddfa neu gyfeiriadau'r person cyswllt (os ydynt yn wahanol i gyfeiriadau'r gweithredwr busnes bwyd)	
Rhif ffôn y person cyswllt	

Os gwelwch yn dda, disgrifiwch y gwelliannau a wnaed gennych, gan gyfeirio at y materion a nodwyd yn y llythyr/adroddiad arolygu a anfonwyd atoch gan eich awdurdod lleol ynghyd â'ch sgôr hylendid bwyd:

Cydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd	<hr/> <hr/> <hr/>
Cydymffurfio â gofynion strwythurol	<hr/> <hr/> <hr/>
Hyder yn y gweithdrefnau rheoli a rheolaethau	<hr/> <hr/> <hr/>

Os gwelwch yn dda, nodwch unrhyw dystiolaeth atodol ychwanegol (e.e. ffotograffau, anfonebau, copïau o ddogfennau perthnasol, etc.)

Llofnod :	Dyddiad :
Enw mewn priflythrennau :	Swydd :

Dychwelwch y ffurflen hon i'r Rheolwr Iechyd Amgylcheddol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN - Ffôn: 01685 725000 E-bost publichealth@merthyr.gov.uk